# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 1

GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

*Asesiadau iechyd meddwl sylfaenol*

### 9 Cynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol

(1) Mae asesiad iechyd meddwl sylfaenol yn ddadansoddiad o iechyd meddwl unigolyn sy'n dynodi–

(a) y driniaeth iechyd meddwl sylfaenol leol (os oes un) a allai wella iechyd meddwl yr unigolyn neu atal dirywiad ynddo (rhaid darparu unrhyw driniaeth a ddynodir felly: gweler adrannau 3 a 5); a

(b) y gwasanaethau eraill (os oes rhai) a allai wella iechyd meddwl yr unigolyn neu atal dirywiad ynddo.

(2) Rhaid i'r partneriaid iechyd meddwl lleol sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gynnal gan unigolyn sy'n gymwys i gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol o dan reoliadau a wneir o dan adran 47.

(3) Mae'r cyfeiriad at wasanaethau eraill yn is-adran (1)(b) yn gyfeiriad at–

(a) gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd;

(b) gwasanaethau o fath a ddarperir fel arfer gan ddarparwyr gofal sylfaenol;

(c) gwasanaethau gofal cymunedol (nad ydynt yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd);

(d) gwasanaethau a ddarperir o dan **[**[F1]adrannau 37 i 39 a Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**]** (nad ydynt yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd);

(e) gwasanaethau tai neu wasanaethau llesiant; ac

(f) addysg neu hyfforddiant a all fod o fudd i iechyd meddwl unigolyn.

### Diwygiadau Testunol

**F1** Geiriau yn a. 9(3)(d) wedi eu hamnewid (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **282**

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 9 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 9 mewn grym ar 1.10.2012 gan O.S. 2012/2411, **ergl. 2(e)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 9.